



## **Polisi Preifatrwydd Dawns i Bawb Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)**

Mae Dawns i Bawb yn cymryd diogelwch eich gwybodaeth bersonol yn ddifrifol iawn ac wedi gwneud rhai newidiadau i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn â GDPR. Rydym yn gwarantu bydd y wybodaeth a roddwch i ni yn cael ei gadw mewn lleoliad diogel. Ni chaiff byth ei drosglwyddo i drydydd parti heb eich caniatâd a bydd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion perthnasol yn unig. Mae gennych yr hawl ar unrhyw adeg i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol ar ein basdata a hefyd yr hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl. Byddwch yn cysylltu gyda ni os byddwch eisiau inni gael gwared a'ch manylion.

### **Diogelwch:**

Bydd yr holl ddata personol yn cael ei storio ar fas data electronig a ddiogelir gan gyfrinair, neu mewn ffeiliau sydd wedi'u cloi. Mae pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant yn GDPR ac mae Dawns i Bawb wedi penodi Swyddog Diogelu Data dynodedig, sef Catherine Young, ein Cyfarwyddwr Artistig. Bydd y Swyddog Diogelu Data yn cynnal gwiriadau rheolaidd bod GDPR yn cael ei ddilyn yn gywir.

### **Eich Data:**

Bydd pob person sy'n cymryd rhan mewn sesiynau neu brosiectau Dawns i Bawb yn llenwi'r ffurflen gofrestru sy'n gofyn am eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn, manylion cyswllt brys a gwybodaeth feddygol berthnasol. Bydd y ffurflenni hefyd yn gofyn am eich caniatâd i dynnu ffotograffau at ddibenion cyhoeddusrwydd, ac yn gofyn am eich caniatâd i storio'ch data a chysylltu â chi. Mae'r wybodaeth hon yn bwysig er mwyn sicrhau y gallwn gysylltu â chi os oes angen, ac i ddiogelu chi neu'ch plentyn. Ni fyddwn byth yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol am unrhyw beth heblaw'r hyn yr ydych yn rhoi caniatâd clir i ni.

Gofynnwn am ganiatâd i gysylltu â chi trwy e-bost neu destun i roi gwybod i chi am unrhyw newidiadau i sesiynau neu brosiectau, os caiff sesiwn neu brosiect ei ganslo ar fyr rybudd, neu os bydd angen i ni roi gwybod i chi am unrhyw wybodaeth ynglŷn â pherfformiad, er enghraifft.

### **Cyfryngau cymdeithasol**

Mae gan Dawns i Bawb dudalennau Facebook, Twitter a Instagram lle byddwn yn postio yn rheolaidd am newyddion, sesiynau, prosiectau ac unrhyw negeseuon y mae angen i gyfranogwyr eu hadnabod. Eich dewis chi yw prun a ydych am ein dilyn a gallwch chi atal hyn ar unrhyw adeg. Nid ydym yn cysylltu â phobl yn uniongyrchol trwy gyfryngau cymdeithasol oni bai ein bod yn ymateb i neges. Os byddwn yn eich dilyn chi ar gyfryngau cymdeithasol ond nad ydych chi am i ni, mae gennych yr hawl i atal hyn ar unrhyw adeg. Os byddwch chi'n gadael unrhyw adborth i ni ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol, efallai y byddwn ni'n defnyddio hyn at ddibenion adrodd, ond byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am eich caniatâd yn gyntaf.

### **Gwefan**

Mae gan Dawns i Bawb wefan sy'n cael ei rheoli gan Delwedd. Nid ydym yn dal nac yn storio data personol am ymwelwyr i'n gwefan.

### **Datganiad**

Mae Dawns i Bawb yn cytuno i gydymffurfio â GDPR ac i ddefnyddio eich data personol yn unig am yr hyn rydych chi wedi'i ganiatáu. Ni fyddwn yn storio'ch gwybodaeth am fwy nag sy'n angenrheidiol a byddwn yn monitro ein gweithdrefnau diogelu data yn rheolaidd. Os caiff eich gwybodaeth bersonol ei ddwyn neu ei golli, byddwn yn trin hyn fel achos o dorri diogelwch a byddwn yn cysylltu â chi a gyda Swyddfa'r Comisiynwyr Gwybodaeth yn ddi-oed.